# *Persbectif athrawon o ffactorau sy'n effeithio ar lwyth gwaith cynyddol athrawon dosbarth yn yr Alban*

Dr Carole Bignell[1], Dr Jeff Wood[2], Yr Athro Moira Hulme[1] a'r Athro Gary Beauchamp[3]
[1] Prifysgol Gorllewin yr Alban; [2] Prifysgol Dinas Birmingham;
[3] Prifysgol Metropolitan Caerdydd

CRYNODEB

*Mae athrawon yn yr Alban yn cael eu cyflogi i weithio wythnos 35 awr. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos eu bod wedi gweithio mwy na hyn yn rheolaidd. Dadansoddodd yr ymchwil hwn faint o oriau ychwanegol y bu athrawon yr Alban yn gweithio mewn wythnos ym mis Mawrth 2024 i ddarparu mewnwelediadau i'r gweithgareddau a'r gyrwyr sy'n cyfrannu at lwyth gwaith. Defnyddiwyd dyluniad ymchwil dulliau cymysg dilyniannol ar gyfer casglu data arolwg (n = 1, 834) a data cyfweliad (n = 40). Mae'r papur hwn yn adrodd ar y canfyddiadau ar gyfer athrawon dosbarth (n=1,511), a weithiodd 14.82 awr uwchlaw oriau a gontractiwyd yn yr wythnos ffocws. Cyfrannodd nifer o ffactorau at y llwyth gwaith uwch hwn gan arwain at ddyletswyddau craidd cynllunio, paratoi adnoddau a marcio gwaith yn cael eu symud i oriau nad ydynt dan gontract. Mae ffactorau'n cynnwys: cynnydd yn amrywiaeth a chymhlethdod anghenion disgyblion; cynnydd ym mhroblemau presenoldeb ac ymddygiad disgyblion; a'r defnydd o ddyfeisiau digidol gan athrawon i gymryd rhan mewn tasgau sy'n gysylltiedig â'r ysgol y tu allan i oriau.*

**Geiriau allweddol:** Athrawon dosbarth, llwyth gwaith, yr Alban, ffactorau

---

*https://doi.org/10.16922/ffocws10*

## *Cyflwyniad*

Yn ôl eu contractau, mae athrawon yn yr Alban yn cael eu cyflogi i weithio wythnos 35 awr, sy'n cynnwys 22.5 awr o amser cyswllt dosbarth, 7.5 awr o baratoi a chywiro a 5 awr o amser colegol (SNCT, 2007). Mewn gwirionedd, fodd bynnag, ers bron i ddau ddegawd mae ymchwil wedi canfod bod athrawon yr Alban wedi gweithio mwy na 35 awr yn rheolaidd (Menter et al., 2006; Ravalier a Walsh 2017, Sefydliad Addysg yr Alban (EIS), 2023).

Comisiynodd yr undeb addysgu mwyaf yn yr Alban, Sefydliad Addysg yr Alban (EIS), ymchwil annibynnol a gwahoddodd ei holl aelodau i gymryd rhan. Mae'r ymchwil yn ceisio deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyth gwaith athrawon yn yr Alban, gyda ffocws penodol ar sut mae athrawon yn defnyddio unrhyw amser maen nhw'n gweithio y tu allan i oriau dan gontract. Mae'r papur hwn yn crynhoi agweddau allweddol ar yr adroddiad ymchwil llawn (Hulme et al., 2024), sy'n ymwneud â:

- Nifer yr oriau ychwanegol (os o gwbl) mae athrawon yn gweithio y tu hwnt i'w horiau dan gontract.
- Y prif weithgareddau sy'n ffurfio llwyth gwaith athrawon o fewn a thu allan i oriau dan gontract.
- Y prif resymau dros fethu â chyflawni wythnos waith 35 awr.

## *Llenyddiaeth*

Mae ymchwil i oriau gwaith athrawon wedi archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar sut maen nhw'n defnyddio eu hamser a natur newidiol gwaith athrawon. Mae arolygon llwyth gwaith diweddar wedi canfod bod athrawon yn gweithio oriau hir, gydag athrawon yng Nghymru yn gweithio dros 50 awr ar gyfartaledd mewn wythnos arferol (CGA, 2021) a 41% o athrawon o'r Alban yn dweud eu bod yn gweithio mwy nag 8 awr yr wythnos uwchlaw oriau dan gontract (EIS, 2023). Ar ben hynny, mewn systemau addysg cyfrwng Saesneg mae bwlch sylweddol yn aml rhwng yr oriau y mae athrawon yn eu gweithio a'r amser sy'n cael ei 'gydnabod, ei reoleiddio neu ei gofnodi' gan gyflogwyr (Boeskens a Nusche, 2021, t. 10).

Mae sut mae amser gwaith yn cael ei dreulio yn bwysig hefyd. Mae tasgau nad ydynt yn addysgu sy'n cael eu hystyried o fudd addysgol llai

uniongyrchol i ddysgwyr yn fwy tebygol o gael eu hystyried fel rhai sy'n cyfrannu at y baich llwyth gwaith (Lawrence et al., 2019). Mae tasgau o'r fath yn cymryd amser a allai gael eu neilltuo fel arall i ddyletswyddau craidd neu ei fuddsoddi mewn dysgu proffesiynol (Jerrim a Sims, 2021; MacGrath et al., 2018). Pan fyddant yn wynebu penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd orau i ddefnyddio eu hamser, mae llawer o athrawon yn cymryd rhan mewn math o 'brysbennu' addysgol, gan orfod penderfynu rhwng beth yw gwaith craidd gwerth uchel a'r hyn y gellid ei ystyried yn llwyth gwaith 'diangen' (Stacey et al., t. 778). Ar ben hynny, mae llwyth gwaith 'diangen' o'r fath yn effeithio ar yr amser y gall athrawon ei neilltuo i gyfrifoldebau craidd, megis adeiladu perthnasoedd a gofal bugeiliol disgyblion (Beck, 2017).

Gall dwyster llwyth gwaith effeithio'n negyddol hefyd ar brofiad athrawon o waith ac ansawdd y swydd. Mae dwysáu llwyth gwaith yn digwydd pan fydd cyfrifoldebau athrawon yn ehangu (Jerrim a Sims, 2021) fel eu bod yn cael trafferth bodloni gofynion lluosog a chystadleuol y swydd ochr yn ochr â chreu 'amgylcheddau addysgol effeithiol gyda'u myfyrwyr' (Beck, 2017). Canfu adolygiad Green (2021) o ddata Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth y DU (1992–2017) fod athrawon yn gweithio'n fwy dwys nag unrhyw broffesiwn arall, gyda dwysedd gwaith wedi codi i 'lefelau digynsail' (Green, 2021, t. 298). Mae pwysau sy'n cyfrannu at ddwysáu llwyth gwaith yn digwydd yn yr ystafell ddosbarth hefyd – mae cydnabyddiaeth o angen cynyddol i athrawon wahaniaethu ymhellach rhwng addysgu i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu cynyddol amrywiol a phroblemau ymddygiad. Mae hyn, yn ei dro, yn cyfrannu at straen sy'n gysylltiedig â gwaith (Elliott et al., 2024) a dwysáu llwyth gwaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth wrth i athrawon gymryd rhan mewn casglu ac adrodd data'n ymwneud â chydymffurfiaeth a chynnal cofnodion sy'n gysylltiedig â phroblemau lles ac ymddygiad myfyrwyr (Stacey, 2022).

Mae dwysáu llwyth gwaith yn cael ei waethygu ymhellach gan gynnydd yr ysgol 'blatfformaidd' (Pangrazio et al., 2023; Selwyn 2022). Mae defnydd cynyddol o blatfformau, meddalwedd ac apiau sy'n digideiddio cynllunio, cyfathrebu, rheoli data a chadw cofnodion wedi gwneud y ffin rhwng bywyd ysgol a bywyd gwaith yn fwy athraidd, ac mae staff ysgol yn cael eu gweld fwyfwy fel rhai sydd ar gael y tu allan i oriau ysgol (Reid a Creed, 2021; Selwyn et al., 2017). Mewn ymateb i ddisgwyliadau o'r fath, efallai y bydd athrawon yn ei chael hi'n anodd gosod cyfyngiadau o amgylch oriau gwaith gan weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau efallai fel math o 'berffeithiaeth dueddfrydol' (Hoppe et al., 2023).

## Dulliau

### Moeseg

Gwnaed yn glir i gyfranogwyr, er ei fod wedi'i ariannu gan yr EIS, bod yr ymchwil yn cael ei gynnal yn annibynnol gan y tîm ymchwil. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr ymchwil gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol (rhif cymeradwyo 2024-22252-17355). Arweiniwyd yr astudiaeth gan ganllawiau moesegol BERA (BERA, 2024), gyda gwybodaeth ynghylch pwrpas yr ymchwil, yr hawl i dynnu'n ôl, cyfrinachedd, anhysbysrwydd a storio data yn cael ei rhannu â chyfranogwyr cyn cwblhau'r dyddiadur a'r cyfweliad ar-lein. Roedd yn ofynnol i gyfranogwyr nodi caniatâd i gymryd rhan a chwblhau'r dyddiadur defnydd amser yn ddienw.

O ran y cyfweliadau, hysbyswyd cyfranogwyr na fyddai unrhyw unigolion nac ysgolion yn cael eu henwi mewn unrhyw allbynnau o'r ymchwil. Ar ben hynny, er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu didynnol (Kaiser, 2009), cyfeiriodd dyfyniadau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad terfynol at swydd athro a rhanbarth daearyddol yn unig (yn hytrach nag awdurdod lleol). Gofynnwyd i gyfranogwyr cyfweliadau gydsynio i recordiad sain/fideo (yn ôl eu dewis) a chawsant eu briffio ar ôl cwblhau'r cyfweliad, gan eu cyfeirio at ffynonellau cymorth.

### Gweithdrefn Samplu a Disgrifiad

Mabwysiadodd yr astudiaeth samplu pwrpasol. O'r boblogaeth gyfan o aelodau EIS, cwblhaodd 1,834 o athrawon, a gyflogir mewn 32 awdurdod lleol yn yr Alban, y dyddiadur defnydd amser. O'r athrawon hyn, roedd 971 yn gweithio mewn ysgolion cynradd, 791 mewn ysgolion uwchradd, 58 mewn ysgolion arbennig a 14 mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Roedd y sampl cyfranogwyr yn gyson â phoblogaeth addysgu gyffredinol yr Alban yn fras o ran rhyw, ethnigrwydd ac oedran cymedrig (Llywodraeth yr Alban, 2023, t. 17). Roedd nifer yr athrawon ym mhob cam gyrfa a gwblhaodd y dyddiadur defnydd amser ar-lein fel a ganlyn:

Yn bennaf yn yr ystafell ddosbarth

- prif radd 1440
- athro prawf (newydd gymhwyso) 37
- athro siartredig 34

Athrawon gydag amser/rolau arwain pwrpasol

- athro arweiniol 5
- athro uwch 273
- dirprwy bennaeth 35
- pennaeth 10

Rhoddodd y sampl hwn gynrychiolaeth cyfranogwyr i fath o gontract (llawn-amser/rhan-amser), cyfnod gyrfa, rhyw, ystod oedran a addysgir, awdurdod lleol, a (lle bo'n briodol) pwnc/pynciau a addysgir. Cafodd 40 o athrawon o 25 awdurdod lleol eu cyfweld ym mis Mawrth ac Ebrill 2024.

*Cynhyrchu a Dadansoddi Data*

Defnyddiwyd dyluniad ymchwil dulliau cymysg dilyniannol ar gyfer casglu data. Yng ngham cyntaf y gwaith casglu data roedd gofyn i athrawon gwblhau dyddiadur defnydd amser ar-lein wedi'i godio ymlaen llaw i gofnodi gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith a wnaed yn yr wythnos sy'n dechrau ar 4 Mawrth 2024 ar gyfer yr wythnos galendr lawn. Cynhyrchwyd y categorïau o dasgau ar gyfer y dyddiadur gyda chefnogaeth dau banel o athrawon. Helpodd eu cyfranogiad y tîm ymchwil i sicrhau bod y gweithgareddau yn y dyddiadur yn adlewyrchu gwaith dyddiol athrawon mor gywir â phosibl, a thrwy hynny leihau'r risg y gallai ymatebwyr gwblhau dyddiadur yn rhannol.

E-bostiwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymchwil yn uniongyrchol gan yr EIS, gyda rhaghysbysiad ar 21 Chwefror. Yn yr wythnos a oedd yn dechrau ar 11 Mawrth 2024, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn athrawon i nodi yn y dyddiadur ar-lein y ganran o oriau yr oeddent wedi'u neilltuo yn yr wythnos flaenorol i wahanol weithgareddau:

- yn ystod amser addysgu wyneb yn wyneb.
- y tu allan i'r gwersi (o fewn oriau dan gontract).
- cyn ac ar ôl ysgol (y tu allan i oriau dan gontract).
- ar y penwythnos.

Cynhyrchodd yr arolwg gymysgedd o ddata meintiol ac ansoddol. Gofynnwyd i athrawon a gwblhaodd y dyddiadur nodi eu parodrwydd i gymryd rhan mewn cyfweliad lled-strwythuredig fideo neu alwad ffôn dilynol. Nododd 550 o'r athrawon a ymatebodd i'r dyddiadur ar-lein eu bod yn barod i gymryd rhan mewn cyfweliad dilynol. Cysylltwyd â sampl gynrychioliadol o 55 o athrawon, a chynhaliwyd cyfweliadau gyda 40 o athrawon. Roedd dadansoddiad ansoddol yn cynnwys cyfuniad o godio didynnol ac anwythol (Bingham, 2023). Cynhyrchwyd codau cychwynnol mewn ymateb i'r cwestiynau ymchwil a'r llenyddiaeth a adolygwyd. Yna cafodd sampl fach o drawsgrifiadau eu codio'n annibynnol gan ddau ymchwilydd a gyfarfu i drafod a chytuno ar unrhyw godau ychwanegol i'w defnyddio ac i egluro anghysondebau cyn cytuno ar themâu a chwblhau dadansoddiad o'r set ddata gyfan. Mae'r papur hwn yn defnyddio data meintiol crynodeb disgrifiadol a phenawdau ac enghreifftiau darluniadol o drawsgrifiadau'r cyfweliadau.

## *Canlyniadau a thrafodaeth*

Mae'r canfyddiadau isod yn archwilio sut y defnyddiwyd amser (o fewn a thu allan i oriau dan gontract), gan y 1,511 o athrawon (prif radd, prawf a siartredig) a oedd yn gweithio'n bennaf yn yr ystafell ddosbarth. Cyflwynir data fel canrannau, yn hytrach nag oriau, er mwyn cynrychioli profiadau athrawon amser llawn a rhan-amser yn gywir.

### *Faint o oriau ychwanegol (os o gwbl) mae athrawon yn gweithio y tu hwnt i'w horiau dan gontract?*

Dywedodd athrawon yn yr ystafell ddosbarth eu bod wedi treulio 10.99 awr ar gyfartaledd, ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith y tu allan i'w horiau dan gontract yn ystod dyddiau'r wythnos, gan dreulio 3.83 awr ychwanegol yn gweithio ar y penwythnos – cyfanswm o 14.82 awr.

*Beth yw'r prif weithgareddau sy'n ffurfio llwyth gwaith athrawon o fewn oriau dan gontract?*

O fewn y dyddiadur llwyth gwaith, rhannwyd yr amser a dreuliwyd o fewn oriau dan gontract rhwng addysgu wyneb yn wyneb a gweithgareddau y tu allan i amser cyswllt dosbarth, ond o fewn oriau dan gontract. O fewn hyn, treuliodd athrawon yn yr ystafell ddosbarth ddwy ran o dair (67%) o'r *amser addysgu* wyneb yn wyneb ar ryngweithiadau addysgu a dysgu, 22% o'r amser yn rheoli mân bethau oedd yn tarfu ar y dysgu ac aflonyddwch ymddygiadol sylweddol a'r amser oedd yn weddill yn rheoli adnoddau.

Adroddodd athrawon eu bod yn defnyddio amser oedd *y tu allan i amser cyswllt dosbarth, ond o fewn oriau dan gontract* fel a ganlyn:

- Treuliwyd 58% o'r amser ar: *baratoi a gweinyddu*, gyda'r rhan fwyaf o hyn yn ymroddedig i gynllunio a pharatoi gwersi; cofnodi a dadansoddi data, ysgrifennu adroddiadau a pharatoi cynlluniau cymorth ychwanegol; a marcio a rhoi adborth i ddisgyblion.
- Treuliwyd 16% o'r amser ar *les myfyrwyr*, a oedd yn cynnwys: cyfathrebu â rhieni, gofalwyr, cydweithwyr ac asiantaethau allanol; sgyrsiau dysgu y tu allan i'r dosbarth gyda disgyblion; a gwaith dilynol yn ymwneud â digwyddiadau ymddygiad.
- Treuliwyd 26% ar *gyfrifoldebau a gweithgareddau eraill y tu allan i wersi;* y 3 gweithgaredd (allan o 10) y dywedodd athrawon eu bod yn treulio'r rhan fwyaf o amser arnynt oedd e-byst a chyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd (heblaw gyda rhieni) a datblygiad proffesiynol.

*Beth yw'r prif weithgareddau sy'n ffurfio llwyth gwaith athrawon y tu allan i oriau dan gontract?*

Roedd 17 categori ar gyfer yr amser a dreuliwyd y tu allan i oriau dan gontract yn y dyddiadur ar-lein:

- Paratoi adnoddau
- Cynllunio a pharatoi gwersi
- Cofnodi, mewnbwn a dadansoddi data
- Marcio ac adborth i ddisgyblion
- Ysgrifennu adroddiadau

- Paratoi Cynlluniau Cymorth Ychwanegol
- Paratoi ar gyfer arolygu
- Cyfathrebu â rhieni/gofalwyr/cydweithwyr/asiantaethau allanol
- Gwaith dilynol ar ôl digwyddiad camymddwyn
- Mentora athrawon eraill/goruchwylio athrawon dan hyfforddiant
- Rolau ychwanegol/arbenigol
- Datblygiad proffesiynol
- Cyfarfodydd rhieni ffurfiol/anffurfiol
- Pob cyfarfod arall
- E-bost/ Cyfryngau cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag ysgol/ rhannu gwaith gyda rhieni/gofalwyr ar lwyfannau VLE
- Dyletswyddau gweinyddol eraill
- Tasgau eraill

Mae ymatebion athrawon yn dangos mai'r tri gweithgaredd sy'n llyncu'r amser mwyaf o bell ffordd y tu allan i oriau dan gontract yw:

- cynllunio a pharatoi gwersi (24%)
- paratoi adnoddau (19%)
- marcio ac adborth i ddisgyblion (15%)

*Beth yw'r prif resymau dros fethu â chyflawni wythnos waith 35 awr?*

Mae'r rhesymau dros beidio â chyflawni'r wythnos waith 35 awr yn gymhleth ac yn dibynnu ar y cyd-destun. Er bod athrawon yn yr ystafell ddosbarth yn neilltuo 58% o'u hamser pan nad ydynt yn addysgu ar gyfartaledd i ddyletswyddau craidd, roedd 42% o'r amser hwn yn cael ei lyncu gan yr holl weithgareddau eraill, megis ysgrifennu adroddiadau, cyfathrebu â chydweithwyr/rhieni, datblygiad proffesiynol a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chynorthwyo disgyblion/ymddygiad disgyblion.

Roedd argaeledd digidol yn cael ei ystyried gan yr athrawon fel ffactor sy'n cyfrannu at fwy o lwyth gwaith. Soniodd un athro uwchradd ar wirio negeseuon e-bost gyda'r nos a'i fod yn dal i gyrraedd yr ysgol y bore wedyn gydag 20 neu fwy o negeseuon e-bost yn gofyn am weithredu, tra bod un arall yn cyfeirio at e-byst 'yn pingio yng nghanol gwersi' a defnyddio grŵp WhatsApp ar gyfer cyfathrebu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau yn ymwneud â'r ysgol gyda'r nos. Mae'r argaeledd

tybiedig staff ysgol y tu allan i oriau yn cael ei gydnabod gan Reid a Creed (2022) hefyd ac, i'r athrawon yn yr astudiaeth hon, roedd hyd yn oed yn waeth oherwydd athreiddedd y ffin rhwng cartref ac ysgol (Selwyn, 2017) a ddaw yn sgil hygyrchedd digidol 'pob awr' (Pangrazio et.al., 2023).

Er bod llawer o'r athrawon yn yr astudiaeth hon yn cydnabod y gallai digideiddio eu cynorthwyo i ddiwallu anghenion cynyddol amrywiol eu disgyblion, mae'n amlwg bod llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan athrawon yn eu hamser eu hunain. Esboniodd un athro Cynradd fod gan 50% o'i ddisgyblion Anghenion Cymorth Ychwanegol, gan arwain at gynllunio/paratoi adnoddau ar gyfer wyth tasg wahaniaethol gyda'r nos er mwyn mynd i'r afael â gofynion targedau Cynllun Cymorth Addysg y disgyblion. Soniodd athrawes uwchradd economeg y cartref am gynllunio ar gyfer disgyblion a oedd yn wrthodwyr ysgol neu wedi'u hallgáu'n fewnol (disgyblion yn 25-30% o'i dosbarthiadau):

> *Rydyn ni'n gorfod bron dyblu ein gwaith … ar gyfer disgyblion nad ydynt yn cyrraedd yr ysgol. Rydw i wedi gorfod trosglwyddo llawer o'm hadnoddau a threulio amser yn eu rhoi mewn fformat ar-lein, Google Classroom neu Microsoft Teams, i wneud yn siŵr bod disgyblion yn gallu cwblhau gwaith gartref.*

Mynegodd llawer o'r athrawon yn yr astudiaeth hon ymrwymiad i wahaniaethu addysgu i ddiwallu anghenion eu poblogaeth gynyddol amrywiol. Fodd bynnag, arweiniodd hyn at ddwysáu llwyth gwaith a waethygwyd ymhellach gan argaeledd platfformau digidol.

Arweiniodd amrywiaeth anghenion disgyblion at fwy o faich cadw cofnodion i'r athrawon yn yr astudiaeth hefyd. Dywedodd athrawon eu bod wedi treulio 22% o'r amser addysgu yn rheoli mân amhariadau ar y dysgu ac aflonyddwch ymddygiadol sylweddol, ac mae digwyddiadau o'r fath yn ychwanegu at y llwyth gwaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn aml. Fel y dywedodd un athro Cynradd:

> *Bu'n rhaid i mi ddelio â digwyddiad treisgar yr wythnos diwethaf. Fe wnes i ffonio rhieni, ysgrifennu'r cyfan i lawr, uwchlwytho'r nodiadau. Cymerodd awr a hanner. Doedd gen i ddim amser ar ôl i gynllunio a darparu adnoddau gweddill gwersi'r wythnos, felly roedd yn rhaid i mi fynd â hynny i gyd adref a'i wneud gartref.*

Mae'r uchod yn adleisio'r heriau a nodwyd gan MacGrath et al, (2018) a Lawrence et al. (2019), sef nad oes gan athrawon amser i werthfawrogi

tasgau sy'n cael eu hystyried fel rhai sydd â llai o fudd addysgol uniongyrchol i ddysgwyr, megis cofnodi ymddygiad disgyblion. Mewn achosion o'r fath, mae eu gwaith craidd gwerth uchel (Stacey et al., 2022) yn cael ei gyflawni yn eu hamser eu hunain.

Oherwydd y pwysau lluosog hyn, sy'n cystadlu â'i gilydd, ar amser nad yw'n addysgu dan gontract, roedd y dyletswyddau craidd a amlinellir uchod yn cael eu gwthio allan o oriau athrawon dan gontract i'w cyflawni gan athrawon yn eu hamser eu hunain. Yn y cyfweliadau a'r ymatebion dyddiadur ar-lein, roedd athrawon yn dweud bod y pwysau amser cystadleuol a amlinellir uchod yn cael ei waethygu gan yr angen am weithgareddau/tasgau ychwanegol o fewn oriau dan gontract mewn perthynas â:

- Chynnydd yn amrywiaeth a chymhlethdod anghenion disgyblion, sy'n gofyn am gefnogaeth fwy personol.
- Cynnydd mewn problemau presenoldeb ac ymddygiad disgyblion.
- Cynnydd mewn argaeledd y tu allan i oriau sy'n gysylltiedig â phlatfformeiddio ysgolion.

## *Casgliad*

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn cyfrannu at gorff hirsefydlog o ymchwil sy'n cydnabod bod athrawon yr Alban yn gweithio'n rheolaidd y tu hwnt i oriau dan gontract, yn achos yr athrawon hyn sy'n gweithio yn yr ystafell ddosbarth fwy na 40% yn uwch na'u horiau dan gontract yn ystod yr wythnos ffocws. Mae newidiadau yn amrywiaeth anghenion disgyblion a phlatfformeiddio ysgolion yn cyfrannu at y llwyth gwaith cynyddol hwn. Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod angen deialog o fewn a thu hwnt i ysgolion i archwilio newidiadau systemig a gweithdrefnol y gellir eu gweithredu i alluogi athrawon i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau craidd o fewn oriau dan gontract. Gallai'r canfyddiadau gynorthwyo athrawon i gydnabod pan fo llwyth gwaith yn afresymol hefyd er mwyn blaenoriaethu eu lles eu hunain, ynghyd â lles eu disgyblion.

## *Cydnabyddiaeth*

Hoffem ddiolch i'r athrawon a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon, gan roi amser gwerthfawr i rannu eu profiadau o'u llwyth gwaith. Hoffem hefyd ddiolch i Sefydliad Addysg yr Alban (EIS) hefyd am gomisiynu'r ymchwil annibynnol hon.

## *Cyfeiriadau*

Beck, J. L. (2017). The weight of a heavy hour: Understanding teacher experiences of work intensification. McGill Journal of Education, 52(3), 617–36. https://doi.org/10.7202/1050906ar

BERA (2018). Ethical Guidelines for Educational Research. Ar gael yn: Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition (2024) | BERA

Bingham, A. (2023). From data management to actionable findings: A five-phase process of qualitative data analysis. International Journal of Qualitative Methods, 22, 1–11. https://doi.org/10.1177/16094069231183620

EIS (2023). 2023 EIS Member Survey. Workload, Health and Wellbeing, and The Cost-of-Living Crisis. Ar gael yn: https://www.eis.org.uk/Content/images/Research/2023MemberSurvey.pdf

Elliott, A., Reddy, L. A., Lekwa, A. J., a Fingerhut, J. (2024). Teacher stress and supports, classroom practices and student outcomes in high poverty urban elementary schools. Psychology in the Schools, 61, 29–42. https://doi.org/10.1002/pits.23023

Green, F. (2021). British teachers' declining job quality: Evidence from the skills and employment survey. Oxford Review of Education, 47(3), 386–403. https://doi.org/10.1080/03054985.2020.1847719

Jerrim, J. a Sims, S. (2022). School accountability and teacher stress: international evidence from the OECD TALIS study. Educational Assessment, Evaluation and Accountability, 34, 5–32. https://doi.org/10.1007/s11092-021-09360-0

Hoppe, A., Lopper, E., Prestele, E., Milius, M., Nitz, S., Gahrmann, C., a Reis, D. (2023). Extending and intensifying work as mediators in the relationship between weekly time pressure and fatigue: The moderating role of perfectionism. International Journal of Stress Management, 30(3), 298–308. https://psycnet.apa.org/doi/10.1037/str0000294

Hulme, M., Beauchamp, G., Wood, J., a Bignell, C. (2024). Teacher Workload Research Report 2024. University of the West of Scotland. Ar gael yn: https://www.eis.org.uk/Content/images/Campaigns/QualityEducation/WorkloadResearch.pdf

Kaiser, K. (2009). Protecting respondent confidentiality in qualitative research. Qualitative Health Research, 19(11), 1632–41 https://doi.org/10.1177%2F1049732309350879

McGrath-Champ, S., Wilson, R., Stacey, M. a Fitzgerald, S. (2018). Understanding work in schools: The foundation for teaching and learning. NSW Teachers Federation. Ar gael yn: https://hdl.handle.net/2123/21926

Menter, I., McMahon, M., Forde, C., Hall, J., McPhee, A., Patrick, F. a Devlin, A. M. (2006). Teacher Working Time Research: Final Report to the Scottish Negotiating Committee for Teachers. Project Report. Scottish Government / Scottish Joint Negotiating Committee, Edinburgh, UK. Ar gael yn: Final Report - Version 18 August 2006 - Teacher working t…

Pangrazio, L., Selwyn, N., a Cumbo, B. (2023). A patchwork of platforms: mapping data infrastructures in schools. Learning, Media and Technology, 48(1), 65–80. https://doi.org/10.1080/17439884.2022.2035395

Ravalier, J. a Walsh, W. (2017). Scotland's Teachers: Working Conditions and Wellbeing. Ar gael yn: EIS Report August 2017.pdf

Reid, D. B., a Creed, B. M. (2021). Visible at night: US school principal nontraditional work-hour activities and job satisfaction. Educational Management Administration and Leadership. Advance online publication. https://doi.org/10.1177/17411432211027645

Scottish Government (2023). Summary statistics for schools in Scotland 2023. Ar gael yn: https://www.gov.scot/publications/summary-statistics-for-schools-in-scotland-2023/documents/

Selwyn, N., Nemorin, S. a Johnson, N. (2017). High-tech, hard work: an investigation of teachers' work in the digital age, Learning, Media and Technology, 42(4), 390–405. doi: https://doi.org/10.1080/17439884.2016.1252770

Selwyn, N. (2022). Just playing around with Excel and pivot tables - the realities of data-driven schooling. Research Papers in Education, 37(1), 95–114. https://doi.org/10.1080/02671522.2020.1812107

Stacey, M., Wilson, R. a McGrath-Champ, S. (2022). Triage in teaching: the nature and impact of workload in schools, Asia Pacific Journal of Education, 42(4), 772–85, DOI: https://doi.org/10.1080/02188791.2020.1777938